



Rhaglen Nodwyddau a Chwistrellau Fferylliaeth Gymunedol Cymru 2023

**Deall newid mewn trafodion rhaglen nodwyddau a
chwistrellau o fewn lleoliad fferylliaeth gymunedol**

Dyddiad yr Adroddiad: 10/01/2024

Awduron: Tîm Camddefnyddio Sylweddau Rhaglen Iechyd
Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy, Is-adran Diogelu Iechyd,
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynnwys

Dyddiad: 10/01/2024	Fersiwn: Terfynol
Tudalen 1 o 13	

1. Crynodeb.....3

2. Cefndir.....4

3. Nod.....5

4. Dulliau.....6

5. Canfyddiadau.....6

 i. Ymwybyddiaeth o ddarpariaeth NSP.....6

 ii. Capasiti.....6

 iii. Gwybodaeth am yr NSP.....7

 iv. Cofnodi trafodion.....8

 v. Amrywiadau ar lefel leol.....9

 vi. Darpariaeth stoc a chyfarpar NSP.....9

 vii. Cyd-destun cymdeithasol sy’n newid.....10

6. Trafodaethau Cymheiriaid.....11

7. Argymhellion.....11

8. Cyfyngiadau.....13

9. Cyfeiriadau.....13

Crynodeb

- Mae’r ymchwiliad wedi canfod bod y ffactorau sy’n effeithio ar nifer y trafodion a gofnodwyd ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD) yn aml-ffactor ac yn amrywio o fewn ac ar draws rhanbarthau’r byrddau iechyd.
- Neges gyson ar draws Cymru yw bod y gofyniad am ystod gynyddol o wasanaethau mewn fferyllfeydd cymunedol yn effeithio ar y capasiti i ddarparu gwasanaethau rhaglen nodwyddau a chwistrellau (NSP).
- Gall ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gwasanaeth NSP fod yn gyfyngedig oherwydd diffyg hyrwyddo a hysbysebu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd llawer o fferyllfeydd yn awyddus i ddatrys hyn a chael gafael ar sticeri NSP i hysbysebu darpariaeth gwasanaeth.
- Roedd gwybodaeth a hyder staff wrth ddarparu gwasanaethau NSP yn amrywio’n sylweddol o fewn ac ar draws rhanbarthau byrddau iechyd.
- Roedd dulliau o gofnodi trafodion NSP ar yr HRD yn amrywio’n sylweddol ar draws Cymru.
 - Gwelwyd cofnodi ar bapur fel hwylusydd a rhwystr.
 - Roedd mynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron yn atal cofnodi uniongyrchol ar yr HRD mewn rhai fferyllfeydd.
 - Roedd ymwybyddiaeth o sut i gael cymorth gyda'r HRD yn amrywio ac yn effeithio'n uniongyrchol ar gofnodi trafodion.
- Roedd ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda chleientiaid a fynychodd yr NSP yn hwyluso cofnodi trafodion ar yr HRD a darparu offer NSP a chynghor ar leihau niwed.
- Darparodd gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (SMS) arbenigol rwydwaith cymorth ar gyfer fferyllfeydd a rheolaeth gofal cyfannol ar gyfer y grŵp cleientiaid.
- Mae newidiadau i gyd-destun cymdeithasol cymunedau lleol o ran gostyngiad yn nifer yr achosion dyddiol o driniaethau amnewidion opioid (OST) mewn rhai fferyllfeydd, poblogaeth sy’n heneiddio, ffyrdd o fyw lle mae pobl yn symud yn aml, oriau agor, lleoliad fferyllfeydd a newidiadau mewn tueddiadau o ran defnyddio sylweddau yn effeithio ar nifer y trafodion a gofnodwyd ar yr HRD.

Nid yw hwn yn adolygiad cynhwysfawr o brofiadau holl fferyllfeydd cymunedol Cymru. Fodd bynnag, teimlir bod y sampl yn gynrychioliadol er mwyn llywio dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar nifer y trafodion NSP a gofnodwyd ar yr HRD.

Cefndir

Mae rhaglenni nodwyddau a chwistrellau (NSPs) yn cyflenwi nodwyddau a chwistrellau di-haint, offer cysylltiedig, a dewisiadau amgen i chwistrellu ar gyfer pobl sy'n chwistrellu cyffuriau (PWIDs). Mae darpariaeth NSP yn arf hanfodol ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chwistrellu megis feirysau a gludir yn y gwaed (hepatitis B, hepatitis C a HIV) a heintiau bacteriol fel staffylococws awrëws a streptococci ymledol grŵp A (Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru (CDSC), 2021 – 2022). Mae NSPs yn darparu cyngor a gwybodaeth am leihau niwed fel atal gorddos. Gall NSPs hefyd hwyluso cyfeirio at wasanaethau arbenigol a mynediad at driniaethau amnewidion opioid (OST). Gall NSPs weithredu o safleoedd sefydlog, symudol neu allgymorth a chaiff y rhan fwyaf o NSPs eu rhedeg gan fferyllfeydd cymunedol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (SMS) arbenigol gan gynnwys gwasanaethau statudol a thrydydd sector.

Tabl 1:
Trafodion NSP fferylliaeth yn ôl bwrdd iechyd 2021 – 2022

	Number of Specialist NSPs	Number of Pharmacy NSPs	Interactions	% Interactions taking place in Pharmacy NSP
Aneurin Bevan	8	19	16,489	49.5%
BCU	7	64	21,617	92.8%
Cardiff & Vale	7	13	26,296	15.8%
CTM	5	27	13,625	78.7%
Hywel Dda	4	30	9,117	91.4%
Swansea Bay	5	14	8,892	55.9%
Powys Teaching	4	9	1,355	75.4%
Wales	40	176	97,391	58.9%

Noder: O weithgarwch rhaglen nodwyddau a chwistrellau yng Nghymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022, CDSC Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021 – 2022.

Ar hyn o bryd mae 209 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru sy'n darparu NSP. Mae'r ddarpariaeth o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn amrywio ar draws y byrddau iechyd a gellir ei briodoli i'r gwahaniaethau mewn ardaloedd gwledig rhwng y rhanbarthau. Mae'r nifer uchaf o ryngweithiadau NSP fferylliaeth gymunedol yn digwydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIP) ar 93%, gyda'r rhyngweithiadau NSP fferylliaeth gymunedol isaf yn digwydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 16 % (CDSC Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021 – 2022). Yn gyffredinol, mae

rh yngweithiadau NSP mewn fferyllfeydd cymunedol yn cyfrif am 58.9% o ryngweithiadau NSP ar draws Cymru, sy’n nodi NSPs fferylliaeth gymunedol fel gwasanaeth hanfodol i leihau niwed i iechyd o fewn y boblogaeth PWID.

Mae holl weithgarwch yr NSP ar draws Cymru yn cael ei gofnodi ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD). Mae’r HRD yn system ar y we sy’n galluogi cofnodion pwynt cyswllt o weithgarwch yr NSP gan gynnwys trafodion, darparu cymorth wedi’i deilwra i leihau niwed a chymorth cysylltiedig ag iechyd, ac atgyfeiriadau ymlaen ar gyfer unigolion unigryw yng Nghymru. Cyflwynwyd yr HRD i NSPs statudol a thrydydd sector yng Nghymru yn 2010 a daeth ar gael mewn NSPs fferylliaeth gymunedol ym mis Ebrill 2014. Mae’r data o’r HRD yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i fonitro gweithgarwch NSP ar draws Cymru, gan nodi tueddiadau newydd sy’n dod i’r amlwg a meysydd sy’n peri pryder, ac adroddir arno’n flynyddol yn Adroddiad NSP Cymru.

Mae Adroddiad NSP Cymru wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr unigolion sy’n defnyddio NSP yn rheolaidd a gostyngiad yn nifer y trafodion a gofnodwyd ar yr HRD mewn fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r gostyngiad hwn a nodwyd wedi ysgogi adolygiad o'r ffactorau a allai fod yn cyfrannu at y gostyngiad mewn gweithgarwch NSP mewn fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru.

Nod

Nod yr ymchwiliad hwn oedd archwilio’r cyd-destun lle mae’r gostyngiad yn nifer y trafodion NSP fferylliaeth gymunedol a gofnodwyd ar yr HRD wedi digwydd er mwyn llywio datblygiad parhaus a gwelliant parhaus gwasanaethau’r NSP yn unol â’r angen presennol. Roedd yr amcanion y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- Disgrifio rhwystrau a hwyluswyr i ddarpariaeth gwasanaeth NSP mewn fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru a allai fod yn effeithio ar nifer y trafodion a gofnodir ar yr HRD.
- Nodi ffactorau cymdeithasol a chyd-destunol a allai ddylanwadu ar weithgarwch yn yr NSP fferylliaeth gymunedol.
- Nodi anghenion cymorth ar gyfer fferyllfeydd cymunedol wrth iddynt ddarparu gwasanaethau NSP.

Dull

Cynhaliwyd ymweliadau wyneb yn wyneb a chysylltiadau ffôn â fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau NSP ar draws saith o ardaloedd byrddau iechyd Cymru. Trefnwyd ymweliadau â fferyllfeydd gyda chymorth arweinydd cyswllt fferylliaeth penodol y bwrdd iechyd.

Cynhaliwyd adolygiad o'r trafodion a gofnodwyd ar yr HRD rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 a nodwyd fferyllfeydd gyda'r gostyngiad canrannol uchaf mewn trafodion, nifer uchel o drafodion neu ddim trafodion a gofnodwyd dros gyfnod o flwyddyn. Cwblhawyd cyfanswm o 50 o ymweliadau safle wyneb yn wyneb a 29 cyswllt ffôn, sef 45% o'r holl fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau NSP.

Cynhaliwyd grŵp ffocws mewn un ardal bwrdd iechyd. Mynychodd cyfanswm o 4 o gymheiriaid a rhoi adborth ar ffactorau canfyddedig sy'n effeithio ar drafodion NSP mewn fferyllfa gymunedol.

Canfyddiadau

Tynnwyd themâu o'r trafodaethau ar lefel byrddau iechyd ac adroddwyd arnynt yn genedlaethol oni bai bod angen gronynogrwydd penodol ar lefel bwrdd iechyd.

Ymwybyddiaeth o ddarpariaeth NSP

Ar draws Cymru roedd hysbysebu a hyrwyddo gwasanaeth NSP yn gyfyngedig. Nid oedd sticeri NSP ar ddrysau blaen y mwyafrif o fferyllfeydd. Nid oedd gwybodaeth lleihau niwed a chyfeirio i fynd adref ar gael i lawer o fferyllfeydd. Roedd nifer o fferyllfeydd yn awyddus i allu darparu gwybodaeth cyfeirio a lleihau niwed, megis technegau chwistrellu mwy diogel a gwybodaeth am BBVs. Gofynnwyd i'r wybodaeth hon gael ei darparu ar ffurf taflenni y gellid eu dosbarthu gydag offer yr NSP.

Capasiti

Ar draws Cymru, nodwyd bod capasiti fferyllfeydd cymunedol i ddarparu'r gwasanaeth NSP yn broblem. Nododd pob fferyllfa alw cynyddol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol a bod NSP yn un

Dyddiad: 10/01/2024	Fersiwn: Terfynol
Tudalen 6 o 13	

o’r gwasanaethau lluosog y mae’n ofynnol i fferyllfeydd eu darparu. Disgrifiodd staff gapasiti yn cael ei ymestyn yng nghyd-destun blinder gweddilliol oherwydd Covid a phwysau a galwadau cynyddol gan y cyhoedd.

Ar draws Cymru, roedd staff yn gweld bod newid wedi bod yn y ffordd yr oedd y cyhoedd yn ymddwyn ers Covid. Dywedodd staff eu bod wedi cael mwy o ryngweithio negyddol ag aelodau o’r cyhoedd yn gyffredinol (nad oeddent yn ymwneud yn benodol â darpariaeth NSP) a oedd yn ei gwneud yn fwy heriol i ddarparu gwasanaethau yn gyffredinol.

Gwybodaeth am NSP

Roedd gwybodaeth a hyder staff yn y ddarpariaeth o NSP yn amrywio o fewn ac ar draws y byrddau iechyd. Roedd rhai aelodau o staff yn hyderus yn y ddarpariaeth o NSP ac nid oeddent yn teimlo bod angen hyfforddiant na chymorth ychwanegol ar y tîm. Fodd bynnag, dywedodd llawer o staff am ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o’r offer NSP a gofynnwyd am hyfforddiant ychwanegol mewn darpariaeth NSP. Amlygwyd dau rwystr rhag cwblhau’r hyfforddiant angenrheidiol: yr her o ddod o hyd i amser i gwblhau’r hyfforddiant oherwydd llwyth gwaith uchel a diffyg ymwybyddiaeth o’r hyfforddiant sydd ar gael drwy Orion Medical Suppliers. Roedd fferyllfeydd yn nodi’n gyson yr angen am nodyn atgoffa gweledol o’r hyn oedd yn y pecynnau y gellid ei adolygu’n gyflym i hwyluso darparu’r offer cywir a chynghor ar leihau niwed.

Mewn rhai fferyllfeydd, dywedodd staff nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau allweddol i gleientiaid am y math o gyffur, lleoliad ac amllder y chwistrellu. Mae'r rhain yn gwestiynau gorfodol ar yr HRD y mae'n ofynnol eu cwblhau er mwyn llywio'r ddarpariaeth o ran math o offer, maint a chynghor ar leihau niwed. Teimlwyd bod y cwestiynau'n rhy ymwthiol ac nad oedd cleientiaid yn teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn yn aml yng nghyd-destun amgylchedd fferyllfa brysur. Cyfeiriodd staff at bryderon cleientiaid ynghylch cyfrinachedd a diffyg dealltwriaeth pam yr oedd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhwystrau i ddarparu'r wybodaeth. Nododd rhai fferyllfeydd fod angen hyfforddiant ychwanegol ar sut i ofyn y cwestiynau hyn. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, ni nododd rhai fferyllfeydd eraill unrhyw bryderon ynghylch gofyn i gleientiaid ddarparu'r wybodaeth hon. Priodolwyd hyn i ddatblygiad cydberthynas a pherthnasoedd ymddiriedus wedi'u seilio ar gyfathrebu agored a thryloyw. Nododd fferyllfeydd oedd â man preifat i ffwrdd o'r brif ddesg fod hyn yn hwyluso deialog gyda chleientiaid. Ymhellach, roedd cael aelod o staff gyda diddordeb arbennig mewn darpariaeth NSP a gymerodd yr awenau wrth reoli'r HRD a'r NSP yn hwyluso darpariaeth gwasanaeth a hyder yn y tîm staffio.

Mewn rhai meysydd, amlygodd staff fod pwysau amser yn effeithio ar eu gallu i gael gwybodaeth gan gleientiaid. Holwyd a ellid defnyddio dull cofnodi papur, lle mae'r cleient yn cofnodi ei wybodaeth am y math o gyffur, ei amllder a'i leoliad tra bod yr aelod o staff yn casglu'r offer chwistrellu. Roedd y dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn rhai fferyllfeydd cymunedol.

Cofnodi trafodion

Roedd trafodion naill ai'n cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar yr HRD neu ar ystod o wahanol fathau o ffurflenni cofnodi papur. Defnyddiwyd cofnodion papur oherwydd y pwysau amser a symlrwydd a adroddwyd, fodd bynnag, roedd fferyllfeydd yn adrodd yn gyson bod cofnodi ar bapur a lanlwytho yn ddiweddarach i'r HRD hefyd yn broblemus, gan nodi'n aml *“mae'n dod yn swydd ynddi'i hun”*.

Anaml yr oedd cofnodion papur yn cael eu lanlwytho i'r HRD. Er bod rhai fferyllfeydd yn lanlwytho sypiau o drafodion papur bob mis neu bob cwpl o fisoedd, mae hyn yn golygu bod dyddiad lanlwytho data yn anghyson â'r dyddiad y digwyddodd. Ymhellach, mewn rhai fferyllfeydd ni lanlwythwyd unrhyw drafodion i'r HRD o'r ffurflen gofnodi papur. Priodolwyd hyn i ddiffyg amser ac adnoddau.

Roedd nifer o fferyllfeydd wedi dweud eu bod wedi cael problemau wrth ddefnyddio cofnodion papur ac wedi trosglwyddo i gofnodi'n uniongyrchol i'r HRD. Roedd cael y platfform HRD ar agor ar gyfrifiadur yn hwyluso cofnodi trafodion. Fodd bynnag, nododd rhai fferyllfeydd fod diffyg mynediad at ddigon o gyfrifiaduron yn rhwystr i gofnodi'n uniongyrchol ar yr HRD, gan fod angen i gyfrifiaduron roi blaenoriaeth i ddosbarthu.

Amlygwyd anawsterau wrth gofnodi unrhyw 'Gyffur Arall' ar dudalen 'Manylion Cleient' yr HRD. Fel y soniwyd eisoes, mae'r dudalen manylion cleient yn cynnwys cofnodi defnydd o gyffuriau, lleoliad ac amllder chwistrellu. Mae cofnodi defnydd cleient o gyffuriau yn cynnwys cofnodi gorfodol o unrhyw 'Gyffur Arall' a ddefnyddir ond nad yw'n cael ei chwistrellu. Codwyd cwestiwn gan sawl fferyllfa a oedd angen i'r cofnodi hwn fod yn orfodol, gydag adroddiadau bod cleientiaid yn amharod i roi'r wybodaeth hon, gan arwain at gofnodi trafodion anghywir neu anghyflawn.

Nid oedd fferyllfeydd bob amser yn gwybod ble i gael cymorth wrth ddefnyddio'r HRD ac nid oedd gan rai fferyllfeydd y manylion mewngofnodi diweddaraf, gan arwain at nifer o fisoedd o drafodion nad oedd wedi'u cofnodi.

Amrywiadau ar lefel leol

Dyddiad: 10/01/2024	Fersiwn: Terfynol
Tudalen 8 o 13	

Canfu'r adolygiad hwn amrywiaeth eang yng nghynllun yr NSPs o fewn fferyllfeydd cymunedol. Mewn rhai achosion mae darpariaeth NSP yn digwydd yn y brif siop o flaen cwsmeriaid eraill. Mae rhai eraill yn darparu gofod dynodedig ar wahân ar gyfer NSP, a all gynnwys agoriadau ochr neu mewn rhai achosion ystafell gyfrinachol i gwblhau trafodion. Cydnabuwyd mewn rhai achosion y gallai'r cyfyngiadau a osodir gan osodiad ffisegol y fferyllfa lesteirio darpariaeth gwasanaeth NSP oherwydd efallai na fydd cleientiaid yn teimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu â'r gwasanaethau oherwydd llai o gyfrinachedd. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau a achosir gan ffactorau strwythurol dylunio adeiladau, cafwyd profiad cyson mai po fwyaf ffafriol oedd agwedd y staff tuag at ddarpariaeth NSP, gorau'n byd y gallai timau fferylliaeth oresgyn ac addasu i ddarparu gwasanaethau NSP o ansawdd uchel ar gyfer PWID.

Ar draws Cymru roedd yn ymddangos bod gwahaniaethau unigol mewn agweddau tuag at NSP ac ymddangosai fod sefydlogrwydd staff yn chwarae rhan arwyddocaol yn llwyddiant y ddarpariaeth NSP. Yn gyffredinol, roedd llai o drosiant staff ac agwedd gadarnhaol tuag at ddarpariaeth NSP yn cyfrannu at dderbyn y gwasanaeth yn fwy ffafriol gan y tîm fferylliaeth. Adlewyrchwyd hyn wedyn yn y rhwyddineb canfyddedig o ddefnyddio a chofnodi ar yr HRD a rhyngweithiadau a pherthnasoedd gwaith mwy cadarnhaol gyda'r grŵp cleientiaid. Roedd staff yn adlewyrchu ymdeimlad o fwynhad yn y rôl a boddhad personol ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn a chefnogi'r boblogaeth fregus hon.

Roedd perthnasoedd gwaith gyda SMS lleol yn amrywio o fewn ac ar draws byrddau iechyd. Dywedodd rhai fferyllfeydd eu bod yn gweithio'n agos gyda SMS lleol ac amlygwyd bod hyn yn hwyluso gofal lleihau niwed cyfannol, yn enwedig o ran darpariaeth OST a gofal clwyfau. Mewn cyferbyniad, nid oedd gan rai fferyllfeydd unrhyw gysylltiad â'u SMS lleol, gyda rhai enghreifftiau o wasanaethau yn agos iawn ond heb unrhyw wybodaeth am yr SMS na'r cymorth sydd ar gael.

Nododd sawl fferyllfa y byddent yn hoffi gallu darparu gofal pellach ar gyfer rheoli clwyfau er y nodwyd capasiti ac adnoddau fel rhwystr. Roedd y ddarpariaeth bresennol o ofal clwyfau yn cynnwys cyfeirio at ofal sylfaenol, adrannau achosion brys ac SMS. Fodd bynnag, mynegwyd pryder na fyddai'r cleientiaid yn cael mynediad at y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Stoc NSP a darpariaeth offer

Ar draws Cymru nid oedd yn ymddangos bod problemau sylweddol gydag archebu stoc ac roedd gan fferyllfeydd ddigon o offer NSP. O bryd i'w gilydd, roedd adroddiadau am ychydig o oedi wrth dderbyn stoc, fodd bynnag, roedd hyn yn nodweddiadol oherwydd trefniadau lleol a fferyllfeydd nad oeddent yn archebu'n uniongyrchol trwy Orion Medical Suppliers.

Ar y cyfan, nid oedd cyfyngiad ar faint o offer NSP a gyflenwyd a dywedwyd bod PWID wedi derbyn faint o offer chwistrellu y gofynnwyd amdano. Fodd bynnag, roedd yna achosion lle'r oedd fferyllfeydd yn cyfyngu ar faint ac amserau y byddai offer NSP yn cael ei ddosbarthu. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd y penderfyniad i wneud hyn i'w briodoli i ffactorau amrywiol megis capasiti yn ystod amseroedd dosbarthu brig, pryderon ynghylch sbwriel, lefelau stoc offer NSP ac, mewn lleiafrif o sefyllfaoedd, agweddau staff tuag at PWID. Lle nad oedd fferyllfeydd yn gofyn am amllder chwistrellu ac yn defnyddio recordio papur, roedd maint yr offer a ddarparwyd yn cael ei arwain gan gais PWID yn unig ac nid oedd wedi'i seilio ar gyfrifo faint o offer sydd ei angen a ddarparwyd gan yr HRD.

Adroddwyd bod y nifer o eitemau miniog a ddychwelwyd mewn fferyllfeydd cymunedol yn gyfyngedig ar draws Cymru. Fodd bynnag, nid oedd diffyg dychwelyd, er ei fod yn cael ei annog, yn atal darparu offer chwistrellu.

Cyd-destun cymdeithasol cyfnewidiol

- Llai o godiadau dyddiol o driniaethau amnewidion opioid (OST)**

Nodwyd bod gostyngiad yn nifer y codiadau dyddiol mewn rhai fferyllfeydd cymunedol wedi lleihau trafodion yr NSP. Adroddwyd y byddai cleientiaid yn flaenorol yn casglu eu OST dyddiol ac yn cyrchu NSP ar yr un pryd. Holwyd a oedd cynnydd yn narpariaeth Buvidal yn cyfrannu at y gostyngiad mewn casgliadau OST dyddiol ac felly trafodion NSP.
- Poblogaeth sy'n heneiddio**

Adroddwyd bod poblogaeth PWID yn heneiddio ar draws Cymru. Dywedodd fferyllfeydd yn Hywel Dda fod cleientiaid a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau NSP yn aml wedi marw, gan arwain at lai o drafodion NSP.
- Ffyrdd o fyw lle mae pobl yn symud yn aml**

Adroddwyd bod unigolion sy'n symud yn aml ac yn symud allan o'r ardal wedi effeithio ar nifer y trafodion. Roedd yn ymddangos bod hyn yn cael effaith amlycach yn y cymunedau gwledig. Roedd fferyllfeydd yn Hywel Dda a Phowys yn gallu nodi newidiadau lefel unigol yn eu grŵp cleientiaid a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer y trafodion NSP a gofnodwyd ar yr HRD.
- Lleoliad y fferyllfa ac oriau agor**

Roedd fferyllfeydd cymunedol yr NSP mewn siopau adwerthu yn aml yn adrodd am broblemau gyda'r grŵp cleient yn cael ei wahardd rhag mynd i mewn i'r siopau oherwydd dwyn o siopau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mewn cymunedau gwledig, codwyd materion yn ymwneud â chyfrinachedd, gyda staff yn aml yn adnabod y grŵp cleientiaid, a oedd yn cael ei weld yn rhwystr i gael mynediad at NSP. Yn ogystal, nodwyd mewn cymunedau gwledig y byddai cleientiaid sy'n casglu offer ar gyfer Cyffuriau sy'n Gwella Delwedd a Pherfformiad (IPEDs) yn dod o'r tu allan i'r ardal i gael mynediad at NSP.

Roedd fferyllfeydd yn cydnabod yn gyson bod amseroedd agor yn effeithio ar allu cleientiaid i gael mynediad at wasanaethau NSP. Mewn rhai ardaloedd roedd darpariaeth gyfyngedig neu ddim darpariaeth o wasanaethau NSP y tu allan i oriau ac ar y penwythnos, a mynegwyd pryder ynghylch cael mynediad i offer yn ystod y cyfnod hwn a'r tebygolrwydd cynyddol o rannu ac ailddefnyddio nodwyddau.

Trafodaethau cymheiriaid

Dywedodd cymheiriaid ym Mhowys y gallai gostyngiad yn nifer y trafodion NSP a gofnodwyd ar yr HRD fod i'w briodoli i ostyngiad canfyddedig yn y defnydd o opiadau yn yr ardal. Dywedodd y cymheiriaid y gallai'r gostyngiad hwn mewn defnydd fod oherwydd cynnydd sylweddol mewn ysmygu crac cocên, oherwydd ei fod ar gael yn rhwydd, a'r cynnydd mewn rhagnodi Buvidal.

Dywedodd cymheiriaid hefyd eu bod wedi profi stigma ac agweddau beirniadol mewn rhai o'r fferyllfeydd a fyddai'n atal pobl rhag defnyddio fferylliaeth NSP ac ay byddent fel arall yn cyrchu SMS NSP. At hynny, nodwyd nad oedd mynediad at ddarpariaeth NSP mewn rhai ardaloedd ac nid oedd unrhyw NSP ar gael ar y penwythnosau yn rhwystr sylweddol i gael mynediad at NSP.

Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwiliad hwn, gwneir yr argymhellion a ganlyn:

1. Dylid cynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gwasanaeth NSP trwy sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo a'i hysbysebu ac arddangos sticeri NSP.

Dyddiad: 10/01/2024	Fersiwn: Terfynol
Tudalen 11 o 13	

- Hyfforddiant a chefnogaeth i fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau NSP a'r defnydd o HRD i fod yn fwy hygyrch. Sicrhau bod gan bob fferyllfa fynediad at hyfforddiant ar-lein Orion Medical Suppliers a llawlyfr hyfforddi HRD. Ymchwilio i briodoldeb model hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer rhaedru dysgu ar ddarpariaeth gwasanaeth NSP a defnyddio'r HRD.
- Adolygu'r HRD presennol i archwilio ffyrdd o sicrhau bod trafodion NSP yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn amserol.
- Dylai fod cynrychiolaeth weledol hawdd ei darllen o offer NSP ar gael ym mhob NSP.
- Dylid cynyddu hygyrchedd at gyfeirio a gwybodaeth gyfannol am leihau niwed yn unol â manyleb gwasanaeth cyfredol fferylliaeth gymunedol Cymru. Gall hyn fod ar ffurf taflenni y gellir eu dosbarthu ar yr un pryd ag offer NSP.
- Annog gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol a fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru. Mewn ardaloedd lle mae hyn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd mae fferyllfeydd wedi nodi ei bod yn berthynas gefnogol a hwylusodd ofal cyfannol a darparu gwybodaeth lleihau niwed a chynghor cyfeirio. Dylai Cymru fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil agosrwydd llawer o fferyllfeydd a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.
- Cynyddu'r capasiti i ddosbarthu gwasanaethau NSP y tu allan i oriau fel y nodir gan angen lleol. Mae hyn hefyd yn ganfyddiad o ymgynghoriad cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Rhwydwaith Ewropeaidd Pobl yn Defnyddio Cyffuriau (EuroNPUD) gyda defnyddwyr gwasanaethau yn 2023. Bydd cynyddu darpariaeth gwasanaethau NSP y tu allan i oriau yn cyfrannu at leihad yn y gostyngiad mewn trafodion NSP mewn fferyllfeydd, yn cyfrannu at dargedau dileu BBV a lleihau rhannu ac aildefnyddio offer chwistrellu.
- Mae angen datblygu ymhellach waith partneriaeth gyda siopau manwerthu sy'n gartref i ddarpariaeth fferylliaeth a gwasanaethau NSP. Lleihau'r angen i orfodi mesurau rheoli sy'n atal pobl rhag cael mynediad i'r siopau a thrwy hynny atal defnyddio gwasanaethau NSP, er mwyn galluogi darpariaeth ddiogel, hygyrch a theg o wasanaethau NSP.
- Mae angen rhagor o waith i ddeall y tueddiadau newidiol mewn defnyddio sylweddau ar draws Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar drafodion NSP. Mae tystiolaeth ansoddol yn yr adroddiad hwn yn dangos y gallai fod newid yn y defnydd o sylweddau ar draws Cymru, gyda mwy o ddefnydd o grac cocên a darpariaeth gynyddol o Buvidal. Mae angen i wasanaethau'r NSP fod yn ymatebol i newidiadau yn y tueddiadau o ran defnyddio sylweddau er mwyn sicrhau y darperir offer sy'n ymwneud â chyffuriau sy'n parhau i leihau niwed a throsglwyddo heintiau fel BBVs a heintiau bacteriol eraill.

Dyddiad: 10/01/2024	Fersiwn: Terfynol
Tudalen 12 o 13	

Cyfyngiadau

Nid yw'r data'n ymgorffori profiadau pob fferyllfa gymunedol yng Nghymru. Cynhaliwyd ymweliadau a chyswllt dros y ffôn â fferyllfeydd gyda'r gostyngiadau neu'r gwahaniaethau mwyaf mewn trafodion NSP a gofnodwyd ar yr HRD. Mae gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn yn gofyn am ddyrannu adnoddau ychwanegol i ymgorffori persbectif yr holl fferyllfeydd cymunedol i ddeall cymhlethdod y ffactorau sy'n dylanwadu ar newid NSP o fewn y lleoliad hwn.

Cwblhawyd un grŵp ffocws gyda chymheiriaid o un ardal bwrdd iechyd. Nid yw hyn yn adlewyrchu'n llawn brofiadau cymheiriaid o bob rhan o Gymru. Dylai gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol geisio cynnwys adborth o bob un o'r saith ardal bwrdd iechyd er mwyn cael persbectif amhrisiadwy gan gymheiriaid ar gyfer y newidiadau a welir o fewn gwasanaethau.